

## PICTON, Syr THOMAS (1758 - 1815), milwr, llywodraethwr trefedigaethol a caethiwydd

PDF Generated on: Fri, 01 Mar 2024 21:17:27 +0000

<https://yba2-prawfweb-prawfdata.llgc.org.uk/article/c14-PICT-THO-1758>

Enw: Thomas Picton

Dyddiad geni: 1758

Dyddiad marw: 1815

Partner: Rosetta Smith

Plentyn: Thomas Rose Picton

Plentyn: Richard Rose Picton

Plentyn: Frederick Rose Picton

Plentyn: Augusta Rose Picton

Rhiant: Thomas Picton

Rhiant: Cecil Picton (née Powell)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: milwr, llywodraethwr trefedigaethol a caethiwydd

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: Marion Löffler



Ganwyd Thomas Picton ar 24 Awst 1758 yn Hwlfordd, Sir Benfro, y seithfed o ddeuddeg o blant Thomas Picton (1723-1790), tirfeddiannwr ac un o ddisgynyddion y marchog Normanaidd William de Pyketon, a'i wraig Cecil (1728-1806), merch y Parch. Edward Powell, a hanner chwaer i Richard Turberville (teulu [TURBERVILLE](#), Coety, Sir Forgannwg). Fe'i magwyd yng nghartref y teulu, Neuadd Poyston yn Rudbaxton, a mynychodd Ysgol Ramadeg Hwlfordd tan 1771, pan aeth i academi filwrol yn Little Chelsea am ddwy flynedd cyn ymuno â'r Ddeuddegfed Gatrawd dan arweiniad William Picton, ei ewythr ar ochr ei dad. Gwasanaethodd yn Gibraltar cyn ymuno yn 1777 â'r Bymthegfed a Thrigain, catrawd Tywysog Cymru, lle dyrchafwyd ef yn Gapten. Tan 1796 ei unig wasanaeth gweithredol oedd ei waith yn gwastrodî'r bygythiad o wrthryfel ymhlith ei filwyr ym Mryste yn 1783 trwy ei gorffolaeth fawreddog, ei ymarweddiad garw, ei ieithwedd ffaidd a'i gleddyf. Datgomisiwyd ef ar hanner cyflog a dychwelodd i d ei dad am gyfnod o ryw ddeuddeng mlynedd. Tua 1793 cafodd ei saethu yn ei wddf mewn gornest â [Charles Hassall](#), a bu ei lais yn gryglyd oddi ar hynny.

Tua diwedd 1794, hwyliodd ar long fasnach i India'r Gorllewin, lle croesawyd ef yn Martinique gan ei gyd-Gymro [Syr John Vaughan](#), pencadlywydd yr Ynysoedd Cyferwyntol, a'i gwnaeth yn Ddirprwy Brif Swyddog Cyflenwi, swydd a gadarnhawyd gan olynydd Vaughan, Ralph Abercromby, un a werthfawrogai 'olwg llym a llais cras' Picton a'i gymorth wrth gipio St Lucia, St Vincent a Grenada yn 1796-7. Pan ymadawodd Abercromby, penododd Picton yn Llywodraethwr Milwrol Trinidad ar ran Coron Prydain, a chadarnhawyd y dylai barhau i lywodraethu yn ôl 'cyfraith Sbaen'. Llwyddodd Picton i ddyblu'r cynnyrch siwgr i bedair miliwn ar ddeg o bwysau rhwng 1799 a 1802, ac fe'i dyrchafwyd yn Frigadydd a'i gadarnhau'n Llywodraethwr Sifil gan y Goron yn 1801. Fe'i canmolwyd mewn cylchoedd llywodraethol am ei 'allu a'i sêl'. Serch hynny, yn ôl Chris Evans, cymhwysodd Picton gyfraith Sbaen yn fath o gyfiawnder nad oedd ynddo fawr o le i drugaredd, ac arweiniodd ei reolaeth giaidd at ddiennyddio pymtheg ar hugain o bobl yn ystod ei gyfnod yn llywodraethwr (rhai ohonynt am dreisio merched Du rhydd). Trigolion caethiwedig yr ynys, gan gynnwys rhai ei blanhigfeydd ei hun, a ddiodeffodd holl rym y ddeddfwriaeth newydd a gyflwynwyd ganddo gyda chosbau neilltuol o lym. Fe ymddengys bod cymar Picton a mam ei bedwar plentyn, menyw o liw rydd o'r enw Rosetta Smith, yn gyfrannog yn ei oruchwyliaeth, gan redeg rhwydwaith cyfochrog o ysbwywr a defnyddio lluoedd Picton i ddychryn eu cystadleuwyr busnes.

Yn dilyn cosbedigaeth filain ar bobl gaethiwedig yn 1801-1802, arteithio merch rydd o liw bedair ar ddeg mlwydd oed, Louisa Calderon, a gyhuddwyd o fod â rhan mewn dwyn £2,000 gan ryw Pedro Ruiz, a phetisiwn a luniwyd gan ddeiliaid Prydeinig yr ynys, diraddiwyd Picton yn Drydydd Comisiynydd o dan y Comisiynydd Cyntaf Cynrol William Fullarton, a gynhaliodd ymchwiliad systemataidd i lywodraeth Picton a chychwyn diwygiadau ysgubol. Ymddiswyddodd Picton ar 18 Chwefror 1803, chwe mlynedd union wedi goresgyniad Trinidad. Serch hynny, yn absenoldeb Fullarton, a chyda chefnogaeth y rhan fwyaf o blanhigfawyr Ffrengig a Sbaenaidd yr ynys (a gynigiodd gefnogaeth ariannol sylweddol iddo yn ystod ei achosion llys diweddarach), parhaodd Picton mewn grym, erbyn hyn yn unben de facto, nes iddo gael ei ollwng o bob swydd a hwylio i Brydain ym Mehefin 1803.

Yn Llundain, wynebodd Picton nifer o achosion llys am gamddefnydd grym. Cafwyd ymgyrch cyhoeddus gyda lluniau yn y wasg cyn ac yn ystod yr achosion gyda'r nod o ogleisio, oherwydd oedran a rhyw Louisa Calderon, llawn cymaint ag o gyhuddo a hysbysu. Wedi ei arestio yn Rhagfyr 1803, wynebodd Picton ddeuddeg ar hugain o gyhuddiadau, ond y cyhuddiad ynghylch Calderon oedd yr unig un y canlynwyd arno o Fai 1804. Ni ddaeth yr achos cyntaf i'r llys tan 1806, dan yr Arglwydd Brif Ustus Ellenborough, a chafwyd Picton yn euog. Ond roedd yr amddiffyniad a'r erlyniad ym mhob achos yn

seiliedig ar y cwestiwn a oedd compendium cyfraith Sbaen (Recopilación) yn caniatáu arteithio ac yn berthnasol ar ynys Trinidad, ac a oedd arteithio wedi ei arfer yn gyffredin yno ac ar ynnysoedd eraill India'r Gorllewin. Oherwydd adroddiadau amrywiol ar hyn, ac yn sgil marwolaeth Fullarton, ni chafwyd canlyniad pendant i'r achosion pellach yn 1808 a 1812.

Erbyn 1808, roedd y sefydliad Prydeinig yn ymateb i fgythiad Napoleon ar draws Ewrop. Ailymunodd Picton â'r fyddin gan roi gwasanaeth gweithredol yn ymgyrch aflwyddiannus Walcheren yn haf 1809, ac amlygodd ei hun yn ystod Rhyfel Iberia Wellington 1809-12 fel cadfridog y Drydedd Adran. Ar ôl cyfnod yn gwella yng Nghymru yn dilyn pwl o falaria, cafodd ei urddo'n un o farchogion Urdd y Baddon yn Chwefror 1813 a'i ethol yn Aelod Toriaidd dros fwrdeistrefi Sir Benfro ym mis Mawrth. Ailymunodd â'i Adran yn Ebrill 1813 a chymryd rhan yn ymgyrch Wellington i adennill Ewrop.

Bu farw Syr Thomas Picton ym mrwydr Waterloo ar 18 Mehefin 1815, yn arwain ei filwyr er gwaethaf anaf difrifol a dderbyniasai ddeuddydd ynghynt. Ef oedd y swyddog uchaf a laddwyd ar y maes. Yn yr unig [ddyddiadur](#) a oroesodd o'r rhyfel gan Gymro cyffredin, disgrifiwyd Picton gan y Preifat Thomas Jeremiah fel 'our commander, right hand man and the talisman of the army among his men'. Fe'i claddwyd ym meddrod y teulu ym mynwent St George yn Sgwâr Hanover, Llundain, ar 3 Gorffennaf 1815. Yn ei ewyllys olaf, gadawodd ei ystadau ar ynys Trinidad i'w frawd, y Parch. Edward Picton, a £1,000 yr un i'w blant - 'four natural or reputed children by Rosette Smith'. Mae enwau tri o'r plant yn hysbys: Thomas Rose, Richard Rose ac Augusta Rose.

Fel arwr Waterloo y coffawyd Picton am dros ganrif. Syr Thomas Picton oedd testun cystadleuaeth y Gadair yn yr eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin yn 1819, a [Gwallter Mechain](#) yn dod i'r brig. Yn 1828, codwyd cofeb iddo yng Nghaerfyrddin drwy danysgrifiad cyhoeddus; yn 1836, honnodd un o eiriaduron bywgraffyddol cyntaf Cymru: 'his meritorious life was distinguished for his zeal in the service of his country'; yn 1846 roedd y gofeb yng Nghaerfyrddin yn anniogel a rhoddwyd maen coffa yn ei lle sydd wedi para hyd yr unfed ganrif ar hugain. Ar 8 Mehefin 1859, symudwyd gweddillion Picton i Eglwys Gadeiriol St Paul, ac ef yw'r unig Gymro i gael ei (ail)gladdu yno. Clodforwyd ef mewn cerddi gwladgarol ar ddechrau Rhyfel y Boeriaid a'r Rhyfel Mawr, ac roedd ei gerflun yn un o ddeuddeg 'arwr cenedlaethol' a noddwyd gan yr [Arglwydd Rhondda](#) a'u codi yn Neuadd newydd Dinas Caerdydd erbyn 1916. Roedd i'w weld o hyd yn gadfridog arwrol mewn gêm fideo am y Rhyfeloedd Napoleonaidd yn 2010, ond erbyn hynny roedd bywgraffiad trwyadl Robert Havard yn darparu sail gadarn ar gyfer asesiadau byrrach gan ysgolheigion yr unfed ganrif ar hugain. Serch hynny, ni chafwyd ailddehongli ar gofebau cyhoeddus Picton tan y cyfnod rhwng 2020 a 2023 yn ganlyniad i'r mudiad 'Bywydau Du o Bwys', pan gafodd y cerflun yn Neuadd y Ddinas ei roi mewn blwch cyn ei symud. Yn sgil y prosiect 'Ailfframio Picton' gosodwyd ei bortread yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru mewn ffrâm deithio ac er mwyn ei weld rhaid cerdded drwy arddangosfa sy'n cyd-destunoli ei fywyd.

Galwyd Picton yn 'ddihiryn' ac yn 'fochyn o ddyn', ac yn ddiamau roedd yn gaethiwydd ac yn bensaer llywodraeth drefedigaethol giaidd ar ynys Trinidad. Ond rhaid cofio hefyd fod pennu unigolyn i'w gosbi a'i warthnodi wedi bod yn fodd i'r Goron a'r sefydliad Prydeinig guddio'r drefn o ddad-ddynoli, manteisio, treisio a llofruddio pobl gaethiwedig er mwyn bwydo economi'r Ymerodraeth Brydeinig, a'r hiliaeth systemig a oedd yn sylfaen i'r drefn honno. Wrth ailasesu bywyd ac etifeddiaeth Picton rhaid ystyried y gyfundrefn gyfreithiol, wleidyddol ac economaidd a alluogodd ei weithredoedd, ac yn wir a'u hanogodd a'u gwobrwyo, gan ddominyddu'r cof cyhoeddus am yn agos i ddau gan mlynedd.

## Awdur

Marion Löffler

## Ffynonellau

Robert Havard, *Wellington's Welsh general: a life of Sir Thomas Picton* (London 1996)

James Epstein, 'Politics of Colonial Sensation: The Trial of Thomas Picton and the Cause of Louisa Calderon', *American Historical Review*, 112:3 (2007), 712-741

Lauren Benton, Lisa Ford, 'Island Despotism: Trinidad, the British Imperial Constitution and Global Legal Order', *Journal of Imperial and Commonwealth history*, 46:1 (2018), 21-46

Archifau LIGC: [NLW MS 1410E: Sir Thomas Picton Letters](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 5416E: Sir Thomas Picton: Letters](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 9408C: Letters of Sir Thomas Picton](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 14005E: Miscellaneous letters](#)

Thomas Jeremiah, Gareth Glover (gol.), *A short account of the life and adventures of Private Thomas Jeremiah, 23rd or Royal Welch Fusiliers 1812-1837, including his experiences at the Battle of Waterloo* (Huntingdon 2008)

Total War: Napoleon (2010)

## Darllen Pellach

Robert Williams, *A biographical sketch of some of the most eminent individuals which the Principality of Wales has produced since the Reformation* (London 1836)

H. V. Bowen (gol.), (Llandysul 2012)

Chris Evans, *Slave Wales: the Welsh and Atlantic slavery 1660-1850* (Cardiff 2010)

Chris Evans, 'Was Wales Opposed to the Slave Trade?', yn H. V. Bowen (gol.), *A new history of Wales: myths and realities in Welsh history* (Llandysul 2011), pp. 107-12

Robinson, 'Y Fasnach Gaethweision a Chymru Forwrol', *Llafur, cylchgrawn hanes Llafur Cymru*, 10:2 (2009), 5-18

Angela Gaffney, '[A National Valhalla for Wales. Sir Alfred Thomas and the Welsh Historical Sculpture Scheme, 1910-1916](#)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, new series, 5 (1999), 131-44

Heaton Bowstead Robinson, *Memoirs of Lieutenant-General Sir Thomas Picton, G.C.B. &c. : including his correspondence, from originals in possession of his family* (London 1835) (2 vols)

Llywodraeth Cymru: [Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: archwiliad o Goffáu yng Nghymru](#)

Carolyn Hitt, [The towering figure in Welsh history whose statues and plaques deserve to be taken down](#)

BBC News: [Statue of slave owner Thomas Picton in Cardiff boxed off](#)

BBC News: [Cardiff museum takes down slave owner Thomas Picton's portrait](#)

Newyddion S4C: [Tynnu portread o Syr Thomas Picton i lawr yn holli barn](#)

[The trial of Governor T. Picton: for inflicting the torture on Louisa Calderon, a free mulatto, and one of His Britannic Majesty's subjects, in the Island of Trinidad, tried before Lord Chief Justice Ellenborough and a special jury, and found guilty. Taken in short-hand during the proceedings on the 24th of February, 1806](#) (London 1806)

Edward Alured Draper, [An address to the British public, on the case of Brigadier-General Picton, late governor and Captain-General of the island of Trinidad: with observations on the conduct of William Fullarton, Esq., F.R.S. and the Right Honourable John Sullivan](#) (London 1806)

Erthygl Wicipedia: [Thomas Picton](#)

## Delweddau

F. W. Tomkins, William Beechey, [Sir Thomas Picton, G.C.B](#)

Martin Archer Shee, T. Blood, [Lieutenant General Sir Thomas Picton G.C.B.](#)

Martin Archer Shee, William Holl, [T. Picton](#)

George Dance, William Daniell, [Genl. Picton](#)

George Dance, William Daniell, [Genl. Picton](#)

LIGC: [Sir Thomas Picton](#)

William Heath, [Lieut. General Sir Thomas Picton, M.P.](#)

LIGC: [Lieut. General Sir Thos. Picton](#)

LIGC: [Sir Thomas Picton](#)

William Heath, Thomas Sutherland, [Genl. Sir Thomas Picton storming the moorish Castle of Badajos. March 31st 1812](#)

J. A. Atkinson, Matthew Dubourg, [Death of Sir Thomas Picton](#)

LIGC: [Arrival of the car containing the remains of General Picton at St. Paul's Cathedral; depositing the remains of General Picton in the vault at St. Paul's Cathedral](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [15599329](#)

Wikidata: [Q121734](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2024-03-01

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

